YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth Gweithredol/Executive Head:**
Mr Matthew HT Evans
**Pennaeth Ysgol/Head of School:**
Mr Dyfrig G Rees

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

3ydd o Hydref 2025,

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

| Munudau'n hwyr y dydd yn ystod y flwyddyn ysgol | Gwerth dyddiau cyfartal o golli dysgu yn y flwyddyn ysgol |
|---|---|
| 5 munud y dydd | 3.4 diwrnod o golli y flwyddyn = 98.4% Presenoldeb |
| 10 munud y dydd | 6.9 diwrnod o golli y flwyddyn = 97.6% Presenoldeb |
| 15 munud y dydd | 10.3 diwrnod o golli y flwyddyn = 94.6% Presenoldeb |
| 20 munud y dydd | 13.8 diwrnod o golli y flwyddyn = 92.9%Presenoldeb |
| 30 munud y dydd | 20.7 diwrnod o golli y flwyddyn = 89.2% Presenoldeb |

## Cefnogi addysg eich plentyn

### Presenoldeb a phrydlondeb

Hoffwn ofyn unwaith eto am eich cefnogaeth i sicrhau bod disgyblion yn cadw ffigyrau presenoldeb cryf ac yn cyrraedd yn brydlon i'r ysgol yn y boreau. Rydym yn cefnogi ymgyrch Caerdydd yn llawn i sicrhau'r gorau o bresenoldeb, prydlondeb ac i dynnu sylw at bwysigrwydd presenoldeb uchel a'i berthynas â lles a chyrhaeddiad. Dyma ddata diddorol i'w gymharu.

Bydd pob disgybl sydd yn hwyrach na 8.35yb yn colli ei ffôn am y dydd.




### Arferion dyddiol er mwyn sicrhau ymddygiad cadarnhaol

Mae hybu ymddygiad cadarnhaol yn ffocws ysgol gyfan ac rydym yn falch o'ch hysbysu o'n harferion dyddiol a'n disgwyliadau uchel o'n disgyblion. Os oes modd i chi drafod rhain gyda'ch plentyn, byddai hynny o fudd mawr. Hefyd  atgoffwch eich plentyn i ddechrau pob sgwrs yn y Gymraeg yn yr ysgol.

### Taith Tecstilau a Graffeg

Cafodd disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 y cyfle i fynychu Sw Briste i fraslunio ac arbrofi gydag ysbrydoliaeth natur.





**Cinio yn y Ffreutur** –

Mae pob blwyddyn erbyn hyn yn medru mynychu'r ffreutur i gael cinio poeth. Rydym yn parhau i atgoffa disgyblion i weithredu'r system ailgylchu yn gywir a thacluso unrhyw sbwriel.

**Gwaith maes Daearyddiaeth Bl 11**

Cafodd Blwyddyn 11 daith lwyddiannus iawn yn casglu data ar gyfer eu gwaith cwrs TGAU yn Mharc Margam yr wythnos hon.







**Taith Celf - Llundain**





Bu criw TGAU a Lefel A, Celf a Ffotografiaeth ar daith i Lundain er mwyn casglu ysbrydoliaeth i'w cefnogi i fod yn greadigol. Roeddent wedi mwynhau ymweld ag amgueddfeydd ac atyniadau'r ddinas.

**Gliniaduron Blwyddyn 8**

Pleser yw nodi ein bod yn barod i ddosbarthu gliniaduron i ddysgwyr Blwyddyn 8 gan ddechrau ar y 6ed o Hydref. Diolch i bawb am y gefnogaeth gyda'r cyfraniadau ariannol. Bydd y broses o ddosbarthu yn cymryd wythnos gyfan, felly peidiwch â phoeni os nad yw'r ddyfais yn dod adref ar y diwrnod cyntaf. Os nad ydych wedi gwneud yn barod, mae angen i rieni Blwyddyn 8 i gytuno drwy roi cydsyniad ar ClassCharts i'r cytundeb defnydd derbyniol, a anfonwyd ar yr 20fed o Fedi.

**Holiaduron SHRN**

Yn ystod tair wythnos gyntaf mis Hydref, bydd eich plentyn yn cael cyfle i gwblhau holiadur SHRN (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion). Mae'r holiadur yn casglu gwybodaeth am iechyd a lles pobl ifanc ac yn helpu ysgolion ac asiantaethau i wella gwasanaethau. Mae'r data'n gyfrinachol ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil ac adroddiadau ystadegol yn unig. Os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn gymryd rhan, mae gennych hawl i wrthod. Mae mwy o fanylion yn y llythyr sydd wedi ei anfon allan ar Classcharts.

**Gwisg ysgol**

Diolch am bob cyfraniad o wisg ail law ond nid ydym yn casglu mwy ar hyn o bryd. Pan fyddwn yn gofyn am fwy o gyfraniadau a allai rhieni sicrhau eu bod yn **ddillad o ansawdd** os gwelwch yn dda.

**Digwyddiadau gweddill y Tymor**

| | |
|---|---|
| 6 Hydref | Bl 11 Gwaith cwrs Cymraeg |
| 7 Hydref | Noson agored Bl 6 |
| 8 Hydref | Cyngerdd cerddorfa Unedig Clwstwr |
| 13 Hydref | Noson Wybodaeth Bl 10 |
| 15 a 17 Hydref | Cerddorfa Unedig Ysgolion De Cymru |

Hoffwn hefyd eich atgoffa, os ydych yn dymuno cysylltu â ni ynglŷn ag unrhyw eglurhad, esboniad neu ymholiad, gweler ein gwefan am y manylion cyswllt diweddaraf ar gyfer y Tîm Arwain ac Arweinwyr Cynnydd a Lles.

Yr eiddoch yn gywir,

Mrs Catrin Arnopp
Dirprwy Bennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf